# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 8fed o Orffennaf, 2025** |
| **AMSER** | **Cychwyn am 7y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso**<br><br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Olwen Roberts. |
| **2.** | **Presennol:**<br><br>Gethin Jones, Jina Gwyrfai, Lois Fychan, Sianelen Pleming, William Jones, Osian Williams.<br>**Ymddiheuriadau**<br><br>Derek Thomas, Griffith Jones. |
| **3.** | **Datgan diddordeb**<br><br>neb |
| **4.** | **Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion cyfarfod Mehefin 2025.**<br><br>Cyflwynwyd y cofnodion a chynigodd LF eu bod yn gywir ac eiliodd OW. |
| **5.** | **<u>Materion yn codi</u>**<br>a) Roedd Siwan Tomos, prif weithredwr Nant Gwrtheyrn wedi rhoi cyflwyniad i waith y Nant a'i gweledigaeth hi at y dyfodol ac roedd yn dangos awydd i gydweithio efo'r cyngor â'r ddau bentref.<br>b) SP i drefnu dyddiad ar gyfer mynd trwy focs Gillian yn ystod y gwyliau a phawb ddod fel y maent yn gallu. (GJ/JG/LF yn awyddus i ddod. Cychwyn am 5 a GJ i ddod am 7.<br>c) GJ wedi cael prisiau ar gyfer y fainc- wedi anfon linc am y feinciau i bawb. OR am edrych pa fainc sydd ei angen. Mae angen fainc sydd yn ffitio yn Llithfaen. GJ i fesur y lle ar ei chyfer. Sortio ym mis Medi felly.<br>d) Aelodaeth Unllais – GJ wedi cysylltu – Unllais yn dod yn ôl atom.<br>e) Wal mynwent Pistyll – un pris wedi dod i law. Aros am dri pris ym mis Medi. LF yn cynnig ei roi ar dudalen Facebook. SP yn holi Dylan<br>f) Llythyr Cefnogaeth Hafod Ceiri wedi ei anfon ymlaen. |
| **6.** | **<u>Penodi Clerc Cyngor Cymuned Pistyll</u>**<br>- Yn ôl ar wefan Cyngor Gwynedd ac wedi ei roi yn y Llanw a'r Ffynnon. Un ymgeisydd wedi anfon cais yn barod. Edrych ar y ceisiadau yn ystod ail wythnos mis Awst. Penderfynwyd gwneud y cyfweiliadau nos Fawrth, 12fed o Awst. |
| **7.** | **Archwiliad Allanol**<br>- Cadarnhau bod pethau yn iawn efo'r archwiliad. |
| **8.** | **Gwefan ccpistyll.cymru**<br>Lluniau wedi dod a'r wefan yn barod i fynd yn fyw.<br>GJ wedi siarad efo cyfreithiwr. Mae'n mynd i gostio tua £600-£1000 i gael llythyr twrnai i'w dynnu i lawr. Cynigwyd i GJ ofyn i Unllais os fedran nhw sortio'r broblem ac os na fedran nhw fedran nhw gynghori am y ffordd ymlaen. |
| **9.** | **Cyflwyno a Mabwysiadu Polisïau**<br>- Polisi ar Gadw a Gwaredu Dogfennau (Cynnig SP Eilio LF )<br>- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Cynnig GJ Eilio SP )<br>- Polisi ar Ddiogelu Gwybodaeth a Data (Cynnig GJ Eilio LF )<br>- POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL (Cynnig LF Eilio SP)<br>Derbyniwyd copïau o'r uchod. Cynigwyd eu mabwysiadu.<br>Awgrymwyd cadw copïau digidol a chopïau papur mewn ffeil pan fydd y clerc newydd yn cychwyn. Angen llofnod y cadeirydd wedi ei ddyddio a dyddiad i adolygu ar bob polisi. |
| **10.** | **Gohebiaeth :**<br>Derbyniwyd llythyr gan Ieuan Wyn am Lyn Celannedd, sef cais i droi enw newydd y llyn yn ôl i'w enw gwreiddiol. OR am gael copi o'r llythyr gan JG i'w anfon ymlaen. . |

| | |
|---|---|
| | |
| **11.** | **Hyfforddiant Unllais Cymru**<br>Hyfforddiant wedi ei wneud gan LF, GJ, JG a SP ar 16/06/2025. Angen rhoi copi o'r dystysgrif yn y ffeil. |
| **12.** | **Cyllidol**<br>**Anfonebau**<br>Gethin Jones – Gwaith Clerc<br>Dewi Ellis wedi talu am fatris i'r deffib.<br>Mae £15 361 a £2 781 yn y cyfrif cadw.<br>Angen newid yr enwau sy'n arwyddo yn dilyn penodi clerc newydd.<br>**Diweddaru Asedau**<br>Dim i'w nodi. |
| **13.** | **Unrhyw Fater Arall /materion lleol**<br><br>Torri gwait mynwent Pistyll. OW yn meddwl bod y gwaith wedi ei wneud ond y cyngor heb gael anfoneb. Tybed ydi'r anfoneb wedi mynd i Gillian.<br>Gweithred Bryn ffynnon wedi ei dod i arwyddo. GJ a OR yn arwyddo. |
| **14.** | **Cyfarfod Nesaf**<br><br>9fed o Fedi 2025 am 7pm yn y Ganolfan Llithfaen<br>Nododd y cadeirydd pe byddai mater brys yn codi ym mhistyll neu yn Llithfaen byddai yn gadael i'r cynghorwyr pentref drafod a dod yn ôl pe byddai angen cyfarfod llawn i drafod. |